

Chris Rowsell
BBC
Broadcasting House
Portland Place
London
W1A 1AA

Siobhan Walsh
Cyfarwyddwr, Polisi Cynnwys

E-bost:
BBCScotland.Assessment@ofcom.org.uk

15 Mawrth 2018

Annwyl Chris,

Sianel BBC Scotland: Diwygio cynnig

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Mawrth 2018 . Yn eich llythyr, rydych chi'n cynnig diwygio cynnig y BBC am sianel deledu newydd ar gyfer yr Alban i gynnwys lansio gwasanaeth cyd-ddarlledu Manylder Uwch (HD).

Fel y gwyddoch, ar ôl i'r BBC gyflwyno ei brawf lles y cyhoedd i Ofcom ar 30 Tachwedd 2017, aethom ati i ddechrau adolygu a ddylid caniatáu i'r cynnig fwrw ymlaen. Fe wnaethom gadarnhau wedyn yn ein llythyr atoch, dyddiedig 11 Ionawr 2018, y byddem yn cynnal Asesiad Cystadleuaeth ('BCA') i asesu'r cais.

Gan fod y BBC bellach wedi diwygio ei gynnig, bydd angen i ni ystyried goblygiadau'r newid ac i ba raddau y bydd angen rhagor o wybodaeth arnom gan y BBC. Byddwn yn cyhoeddi ein barn ar beth mae'r newid i'r cynnig yn ei olygu i'n proses a'n hamserlen ni cyn gynted â phosib.



Siobhan Walsh